Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cyhoeddi llacio mesurau diogelu coronafeirws

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r newidiadau canlynol i reoliadau Lefel Rhybudd 0:

- O 18 Chwefror 2022 ymlaen, ni fydd y Pás COVID domestig yn ofynnol bellach ar gyfer mynediad i ddigwyddiadau a lleoliadau dan do neu awyr agored, gan gynnwys clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd. Gall lleoliadau barhau i ddewis defnyddio'r Pás COVID domestig yn wirfoddol fel rhan o'u hasesiad risg coronafeirws a mesurau rhesymol

- O ddydd Llun 28 Chwefror 2022, ni fydd yn ofynnol mwyach i oedolion a phlant 11 oed a throsodd wisgo gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o lefydd dan do, ac eithrio lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, pob lleoliad manwerthu a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell bod gorchuddion wyneb yn cael eu gwisgo.

Ac yn dilyn yr adolygiad tair wythnos a fydd i ddigwydd erbyn 24 Mawrth 2022, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gallu dileu'r gofynion cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb yn y lleoliadau cyhoeddus dan do sy'n weddill a thrafnidiaeth gyhoeddus ac i fusnesau a sefydliadau gynnal asesiadau risg coronafeirws penodol a chymryd camau rhesymol i leihau'r risgiau.

I ddarllen y cyhoeddiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/llacio-mesurau-diogelu-coronafeirws-wrth-i-achosion-leihau

Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau, a rhaid gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws. Mae'r canllawiau diweddaraf Lefel Rhybudd 0 i fusnes ar gael ar:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

# ARIANNU: Cronfeydd cymorth busnes cyfyngiadau COVID-19 – yn cau 5:00pm Dydd Llun

Bydd y ddwy gronfa gymorth a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ar gyfer busnesau lletygarwch, manwerthu, hamdden a thwristiaeth – a'u cadwyni cyflenwi – a effeithiwyd yn ddifrifol gan y cyfyngiadau diweddar, yn parhau cau am 5:00pm dydd Llun nesaf (14 Chwefror 2022). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/CyfyngiadauRhagfyr2021

# RECRIWTIO: Ffair swyddi lletygarwch Gwaith Gwynedd – wythnos nesaf

Bydd dwy o'r ffeiriau swyddi mewn person, ar gyfer y sector lletygarwch, sy'n cael eu cynnal gan fenter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn digwydd yr wythnos nesaf, gydag un arall i ddigwydd ddechrau Mawrth:

- 15 Chwefror 2022 10:00am-3:00pm: Market Hall,Caernarfon
- 17 Chwefror 2022 10:00am-3:00pm: Y Ganolfan, Porthmadog
- 2 Mawrth 2022 10:00am-3:00pm: VENU, Pwllheli

Mae llefydd yn brin, felly os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru cyn gynted â phosib.

Gallwch hefyd hysbysebu ar Hysbysfwrdd Swyddi Gwaith Gwynedd trwy fynd i:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# AROLWG: Arolwg Côd Ymddygiad Morol Gwynedd, Ynys Môn a Conwy

Er mwyn gwarchod bywyd gwyllt yr ardal yn well, datblygwyd Côd Morol yn 2016 gyda'r pwrpas o cynghori ddefnyddwyr y môr ar sut i ymddwyn yn gyfrifol a pharchu bywyd gwyllt morol. Gellir gweld Côd Morol Gwynedd yn:

https://bit.ly/CôdMorolGwynedd

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau ar hyn o bryd yn cynnal arolwg i'w helpu i ddeall effeithiolrwydd y Côdau Morol, er mwyn gallu gwarchod bywyd gwyllt yr ardal yn well. I gymryd rhan yn yr arolwg byr yma, ewch i:

https://bit.ly/ArolwgCôdMorwrolMarineCodeSurvey

# TECH: Gofod gwneud Ffiws yn agor yng Nghaernarfon 14 Chwefror 2022

Mae M-SParc #ArYLôn yn agor gofod gwneud Ffiws dros dro yn 18 Stryd y Plas, Caernarfon o 14 Chwefror 2022 hyd at 7 Mehefin 2022, 8:30am-4:00pm. Bydd y gofod yn cynnig cyfle i fusnesau ddysgu am amrywiaeth o offer modern a'u defnyddio. Am fwy o wybodaeth am y cyfle yma, cysylltwch â:

arylon@m-sparc.com

Mae gwybodaeth pellach am Ffiws ar:

http://www.m-sparc.com/cy/ffiws

# BWYD & DIOD: #CaruCymruCaruBlas Dydd Gŵyl Dewi 1 Mawrth 2022

Bydd yr ymgyrch digidol – #CaruCymruCaruBlas – i annog siopwyr i ddathlu gyda Bwyd a Diod o Gymru yn dychwelyd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2022! Mae pecyn cymorth ar gael i fusnesau gymryd rhan ar:

https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/CaruCymruCaruBlas

# BREXIT: Dweud eich dweud am ddyfodol tollau

Mae llywodraeth y DU yn gofyn i fusnesau, masnachwyr a'r cyhoedd roi eu barn ar sut mae'r system tollau'n gweithio a pha welliannau yr hoffent eu gweld. Mae mwy am hyn ar:

https://www.gov.uk/government/news/businesses-encouraged-to-have-their-say-on-future-of-customs

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru